

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

STRATEGAETH GAFFAEL

2026 – 2031 Fersiwn 1.0

"Gwneud y gorau o bob punt a wariwn yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru"

www.tancgc.gov.uk

This document is also available in English

RHAGAIR

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Strategaeth Gaffael y Gwasanaeth ar gyfer 2026-2031, sy'n nodi'r weledigaeth, yr uchelgais a'r blaenoriaethau strategol ar gyfer gweithgarwch caffael y Gwasanaeth ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

Yn y Strategaeth hon, ein nod yw nid yn unig parhau i gyflawni effeithlonrwydd a gwerth ychwanegol am arian, ond hefyd i gefnogi amcanion economaidd a chymdeithasol ehangach Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, drwy ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'n cymunedau yn ogystal â sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag ystod o rwymedigaethau deddfwriaethol a chenedlaethol.

Mae caffael yn chwarae rôl strategol wrth alluogi Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i wasanaethu ei gymunedau yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Powys, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe.

Gyda disgwyliadau sy'n cynyddu'n barhaus ar y gwasanaeth tân ac achub, a heriau ariannol parhaus o fewn y sector, mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio ein pŵer gwario i wneud y mwyaf o'n potensial. Mae hyn yn golygu nid yn unig sicrhau nwyddau, gwasanaethau a gweithiau o ansawdd da wrth ddarparu gwerth am arian, ond hefyd sicrhau bod caffael yn chwarae rhan ganolog wrth gyflawni blaenoriaethau ehangach, megis gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd.

Ein nod yw sicrhau, drwy'r Strategaeth hon, y caiff pob punt a gaiff ei gwario gan y Gwasanaeth ei defnyddio i'r eithaf er mwyn cynnig gwerth i gymunedau a phobl Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Edrychaf ymlaen at weld y Strategaeth yn gwireddu ei gweledigaeth a'i hamcanion.

Mydrian Harries

Cyfarwyddwr Adnoddau

Prif Swyddog Cynorthwyol

CYNNWYS

RHAGAIR 2
CYNNWYS 3
CYFLWYNIAD 5
Diffodd Tanau 5
Achub o'r Dŵr 6
Gwrthdrawiadau ar y Ffordd 6
Ymateb Meddygol 7
Achub Anifeiliaid 7
Addysg Diogelwch Tân 8
Diogelwch Tân Busnesau 8
BETH YW CAFFAEL? 9
NOD Y STRATEGAETH 10
CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL 11
Deddf Caffael 2023 11
Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 11
Datganiad Polisi Caffael Cymru 11
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 12
Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 12
Statws Carbon Sero Net erbyn 2030 12
Deddf Cydraddoldeb 2010 13
CYFANSODDIAD YR AWDURDOD TÂN 13
GREEN DRAGON 13
MAP FFORDD AR GYFER LLEIHAU CARBON 2024 – 2030 14
YR AMCANION SY'N FLAENORIAETH 14
1. Gwella Gwytnwch Microfusnesau Lleol, Mentrau Bach a Chanolig (BBaChau) a Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol 14

2. Carbon Sero 16
3. Gwerth Cymdeithasol 17
LLE RYDYN NI EISIAU BOD 18
SUT Y BYDDWN YN CYRRAEDD YNO 18
4. Rheoli Contractau 19
LLE RYDYN NI EISIAU BOD 19
SUT Y BYDDWN YN CYRRAEDD YNO 19
5. Y Cyflog Byw Gwirioneddol 20
LLE RYDYN NI EISIAU BOD 20
SUT Y BYDDWN YN CYRRAEDD YNO 20
GWEITHREDU 21
CYNLLUN CYFLWYNO 22

CYFLWYNIAD

Ers ffurfio Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ym 1996, mae'r Gwasanaeth wedi tyfu i fod yn un o sefydliadau tân ac achub mwyaf y DU, sy'n gwasanaethu tirwedd eang ac amrywiol, o bentrefi gwledig a threfi arfordirol i ganolfannau trefol prysur.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch i'r cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, a gwasanaeth ymateb brys ar gyfer ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Rydym yn cyflogi dros 1,350 o aelodau o staff ac yn gyfrifol am ardal bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.


Ers ei ffurfio, mae'r Gwasanaeth wedi ymateb i filoedd o argyfyngau, wedi bod yn hybu diogelwch a chamau atal tân ac wedi addasu'n barhaus i heriau newydd gyda phroffesiynoldeb a gwydnwch.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn darparu ystod eang o wasanaethau i bobl Canolbarth a Gorllewin Cymru, ac mae caffael gwasanaethau, nwyddau a gwaith yn rhan allweddol o ddarparu'r gwasanaethau hyn, megis:

Diffodd Tanau



Achub o'r Dŵr



Gwrthdrawiadau ar y Ffordd



Ymateb Meddygol



Achub Anifeiliaid



Addysg Diogelwch Tân



Diogelwch Tân Busnesau



Mae'r Gwasanaeth yn gwario tua £18 miliwn bob blwyddyn, yn caffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith, gyda'r cyflenwyr yn amrywio o fentrau bach a chanolig (BBaChau) a'r trydydd sector i gwmnïau mwy. Mae strategaeth gaffael y Gwasanaeth wedi'i threfnu i sicrhau bod yr arian hwn yn cael ei wario mewn modd sy'n gymdeithasol gyfrifol ac sydd hefyd yn sicrhau gwerth am arian.

Mae caffael yn cael ei gydnabod fwyfwy fel sbardun strategol i gyflawni ystod o flaenoriaethau. Mae hyn yn cynnwys cyflawni amcanion economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae digwyddiadau ledled y byd wedi creu heriau digynsail i gadwyni cyflenwi, gan achosi aflonyddwch, prinder a chynnydd mewn prisiau. Mewn byd mor gymhleth a chyfnewidiol mae'r heriau hyn yn debygol o barhau ac yn dod yn fwyfwy anodd eu rhagweld. Mae hyn yn golygu bod angen i gaffael nawr yn fwy nag erioed fod yn wydn a gallu addasu'n gyflym i amgylchiadau sy'n newid.

Mae'r dirwedd ddeddfwriaethol a rheoleiddiol hefyd wedi newid yn sylweddol, gan gynnwys cyflwyno Deddf Caffael 2023 ac elfennau caffael cymdeithasol gyfrifol Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ynghyd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Er bod y newidiadau hyn yn cyflwyno rhai heriau, maent hefyd yn cynnig llawer o gyfleoedd ac yn atgyfnerthu natur strategol prosesau caffael.

BETH YW CAFFAEL?

Diffinnir caffael fel prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith sy'n galluogi sefydliad i weithredu ei gadwyni cyflenwi, mewn modd proffidiol a moesegol, gan gyflawni gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion nid yn unig i'r sefydliad, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi yn ei gymunedau, yn ogystal â lleihau'r niwed i'r amgylchedd hefyd.

Mae caffael yn cwmpasu'r broses strategol gyflawn o ddod o hyd i nwyddau, gwasanaethau neu waith sydd eu hangen ar sefydliad i weithredu, trafod telerau a'u

caffael, yn ogystal â'u gwaredu ar ddiwedd eu hoes. Mae'n cwmpasu popeth, o nodi beth yw'r angen a gwirio cymwysterau cyflenwyr i drafod contractau a rheoli perthynas â chyflenwyr.

NOD Y STRATEGAETH

Nod y strategaeth hon yw nodi'r weledigaeth strategol ar gyfer yr holl weithgareddau caffael a gynhelir ar draws y Gwasanaeth, yn ogystal â sefydlu'r blaenoriaethau allweddol i'w cyflawni wrth reoli adnoddau cyhoeddus yr un pryd yn gyfrifol, yn effeithiol ac mewn ffordd sy'n ychwanegu gwerth i gymunedau lleol y Gwasanaeth.

Datblygwyd cyfeiriad y Strategaeth a'i blaenoriaethau allweddol yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion swyddogaethau ar draws y Gwasanaeth. Y Strategaeth yw'r cyfrwng i gyflawni gweledigaeth a blaenoriaethau'r Gwasanaeth sy'n deillio o'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol a bydd hyn yn gofyn am ymrwymiad a chefnogaeth lawn holl adrannau'r Gwasanaeth.



CEFNDIR DEDDFWRIAETHOL

Mae caffael yn y Sector Cyhoeddus yn cael ei lywodraethu gan ystod eang o gyfreithiau, rheolau a pholisïau ac mae'r Strategaeth Gaffael hon yn cyd-fynd â'r rhain i sicrhau bod prosesau caffael y Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau ac yn ymgorffori blaenoriaethau cenedlaethol.

Deddf Caffael 2023

Dyma'r brif ddeddfwriaeth gaffael yn y Deyrnas Unedig a ddaeth i rym ym mis Chwefror 2025, gan ddisodli Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Nod y Ddeddf yw symleiddio caffael cyhoeddus, gan ei wneud yn gyflymach ac yn fwy tryloyw, yn ogystal â diwallu anghenion y DU yn well a chydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol.

Mae Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 hefyd yn berthnasol i sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Mae'r Ddeddf yn adeiladu ar ddyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae dyletswyddau caffael y Ddeddf yn cynnwys y canlynol:

- Caffael mewn modd sy'n gymdeithasol gyfrifol, gan geisio gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.
- Defnyddio pŵer y pwrs cyhoeddus i annog gwelliant.
- Cyflawni canlyniadau sydd o fudd i gymdeithas.

Daeth y dyletswyddau caffael sy'n gymdeithasol gyfrifol i rym ar 1 Ebrill 2026.

Datganiad Polisi Caffael Cymru

Pwrpas y ddogfen hon yw pennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru drwy nodi deg egwyddor y dylai Cyrff Cyhoeddus Cymru eu dilyn. Mae'r deg egwyddor yn seiliedig ar nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a pholisïau allweddol Llywodraeth Cymru.

Y weledigaeth yw:

“bod caffael yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn ysgogydd pwerus gyda’r gallu i sicrhau newid parhaus er mwyn cyflawni canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar gyfer y llesiant Cymru”.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf yw gwella lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau er mwyn gwneud Cymru'n lle gwell i fyw ynddo, nawr ac yn y dyfodol.

Mae caffael wedi'i nodi fel un o'r saith maes corfforaethol ar gyfer newid yn y Ddeddf ac mae wedi'i amlygu fel maes ffocws allweddol i gyrff cyhoeddus Cymru wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o dan y Ddeddf.

Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'r Mesur yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru ac yn sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Mesur hefyd yn rhoi pŵer i'r Comisiynydd osod Safonau Iaith penodol ar gyrff cyhoeddus.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, fel y'u nodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Statws Carbon Sero Net erbyn 2030

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod uchelgais ar y cyd i sector cyhoeddus Cymru gyrraedd allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2030. Gan fod gweithgaredd caffael yn cynhyrchu ôl-troed carbon uchel, mae wedi'i nodi fel maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu er mwyn cyflawni'r nod erbyn 2030.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn dwyn ynghyd ystod eang o ddarnau o ddeddfwriaeth ar wahân

i mewn i un Ddeddf. Mae'r Ddeddf yn rhestru nodweddion gwarchodedig, ac yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r effaith y bydd unrhyw bolisi, gweithdrefn, cynllun ac ati yn ei gael ar bobl â nodwedd warchodedig

CYFANSODDIAD YR AWDURDOD TÂN

Mae gan yr Awdurdod Tân Gyfansoddiad, sy'n cynnwys rheolau a phrosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau a rheoli busnes y Gwasanaeth. Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Rheolau Sefydlog ar gyfer Contractau sy'n nodi'r prosesau y dylai staff y Gwasanaeth eu dilyn wrth gynnal ymarfer caffael ac yn benodol unrhyw ymarfer caffael sy'n dod o fewn trothwyon deddfwriaeth caffael. Cafodd Rheolau Sefydlog Contractau eu hadolygu a'u diwygio yn 2025 yn unol â deddfwriaeth gaffael newydd. Byddant yn cael eu hadolygu yn flynyddol neu pan fydd unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu lywodraethiant.

GREEN DRAGON

Mae'r Gwasanaeth yn cyhoeddi Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol, fel rhan o achrediad System Rheoli Amgylcheddol Green Dragon; mae'r adroddiad yn amlinellu ein cyflawniadau amgylcheddol dros y flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn tynnu sylw at ystadegau'r Gwasanaeth o ran defnyddio, allyriadau carbon a gwastraff. Mae gweithgaredd caffael yn bwydo i'r adroddiad hwn. Mae'r Adroddiad hefyd yn nodi amcanion i weithio tuag atynt ar gyfer y flwyddyn i ddod.

MAP FFORDD AR GYFER LLEIHAU CARBON 2024 – 2030

Yn 2024, cyhoeddodd y Gwasanaeth ei Fap Ffordd cyntaf ar gyfer Lleihau Carbon, sy'n amlinellu meysydd lle gellir lleihau allyriadau yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru i gyrraedd sero net erbyn 2030 ar gyfer sefydliadau'r sector cyhoeddus. Mae gweithgareddau caffael yn cyd-fynd â'r Map Ffordd ar gyfer Lleihau Carbon.

YR AMCANION SY'N FLAENORIAETH

Y canlynol yw'r Amcanion Caffael Cyfrifol Cymdeithasol sydd wedi'u nodi ar gyfer tymor y strategaeth hon. Mae pob amcan a sut rydyn ni'n mynd i gyrraedd yno yn cael ei grynhoi isod.

1. Gwella Gwytnwch Microfusnesau Lleol, Mentrau Bach a Chanolig (BBaChau) a Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol

Un o amcanion blaenoriaeth Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw cryfhau'r economi leol yn ein hardaloedd cymunedol yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion, Powys, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Gyda hyn mewn golwg, mae'r Gwasanaeth yn awyddus i sicrhau bod busnesau a mentrau lleol yn gallu cystadlu am ei gontractau, gyda'r nod o gadw cymaint â phosibl o'i wariant yn lleol.

Byddwn yn ymdrechu i gefnogi busnesau lleol drwy chwalu unrhyw rwystrau a'u haddysgu cymaint â phosibl am gaffael yn y sector cyhoeddus a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gyflwyno ceisiadau cystadleuol ac o ansawdd da.

Mae Deddf Caffael 2023 wedi cyflwyno nifer o ddiwygiadau gyda'r bwriad o leihau unrhyw faich diangen i fentrau bach a chanolig gael mynediad at gyfleoedd caffael cyhoeddus. Fodd bynnag, bydd busnesau llai yn dal i weld y

broses yn un hir a chostus a bydd angen cymorth nawr, yn fwy nag erioed, i roi unrhyw gyfle iddynt ennill gwaith i sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Gwasanaeth eisoes wedi nodi nifer o'r pethau sy'n rhwystro busnesau a mentrau lleol rhag tendro ac wedi rhoi amrywiaeth o fentrau ar waith i'w lleihau, gan gynnwys cynyddu ei drothwyon tendro fel y gall cyflenwyr lleol llai gael gwaith o dan drothwy o £30,000 heb orfod ymgymryd â phrosesau caffael hir, codi ymwybyddiaeth drwy ddigwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr a chysylltu busnesau â Busnes Cymru fel y gallant gael cymorth tendro a chymorth am ddim. Mae'r Gwasanaeth hefyd wedi symleiddio ei ddogfennaeth gaffael i sicrhau ei bod mor syml â phosibl i fusnesau llai ei chwblhau.

LLE RYDYN NI EISIAU BOD
▪ Rydym am i'n cyflenwyr a'n mentrau lleol ddeall caffael yn well o fewn y Gwasanaeth.
▪ Rydym am nodi a chael gwared ar rwystrau pellach i dendro ar gyfer busnesau a mentrau lleol.
▪ Rydym am godi ymwybyddiaeth o wario'n lleol ar draws adrannau ein Gwasanaeth.
▪ Rydym am gynyddu maint y gwariant gyda microfusnesau lleol, busnesau bach a chanolig a mentrau cymdeithasol cymunedol gwirfoddol.
▪ Rydym am gynyddu'r broses o ddod o hyd i fwyd a gynhyrchwyd yng Nghymru.

SUT Y BYDDWN YN CYRRAEDD YNO
✓ Byddwn yn cynnal ymarfer o fewn system gyfriflyfr Uned 4 i nodi pob busnes bach a chanolig, microfusnes a menter cymdeithasol cymunedol gwirfoddol lleol.

✓ Byddwn yn datblygu ein cofrestr contractau ymhellach ac yn ei huwchlwytho i GwerthwchIGymru, fel bod gan fusnesau a mentrau well ymwybyddiaeth o gyfleoedd tendro yn y dyfodol o fewn y Gwasanaeth.
✓ Byddwn yn gwella ac yn cofnodi dulliau o ymgysylltu â busnesau a mentrau lleol er mwyn datblygu eu sgiliau tendro. Bydd hyn yn ein galluogi i fesur cynnydd bob blwyddyn.
✓ Byddwn yn cynyddu ac yn cofnodi ymgysylltiad cyn tendro ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd caffael i fusnesau a mentrau lleol gynnig am waith gyda'r Gwasanaeth. Bydd hyn yn ein galluogi i fesur cynnydd bob blwyddyn.
✓ Byddwn yn cynnig sesiynau un-i-un i fusnesau a mentrau lleol gydag aelod o'r tîm caffael i fynd dros ganlyniadau tendr gyda nhw a rhoi cyngor ac arweiniad ar sut y gallant wella eu ceisiadau y tro nesaf. Bydd y rhain yn cael eu cofnodi er mwyn gallu monitro'r nifer sy'n eu defnyddio.
✓ Byddwn yn canolbwyntio ar gyrchu bwyd o Gymru drwy roi rhestr o fwyd o ffynonellau Cymreig i'n sefydliadau arlwyo, a thrwy ofyn iddynt ystyried disodli bwydydd a ddefnyddir yn rheolaidd â bwydydd sy'n dod o Gymru. Byddwn yn cael adroddiadau blynyddol gan ein cyflenwr bwyd fel y gallwn fonitro cynnydd.
✓ Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid fel Busnes Cymru i ddatblygu capasiti cadwyn gyflenwi leol i gynnig am ein contractau.

2. Carbon Sero

- Chwarae mwy o rôl yn y nod o gyflawni carbon sero trwy weithgareddau caffael yn unol â Map Ffordd y Gwasanaeth ar gyfer Lleihau Carbon 2030.
- Gwella dealltwriaeth o allyriadau carbon y Gwasanaeth a gynhyrchir gan weithgarwch caffael a gweithio gyda rhanddeiliaid a chyflenwyr mewnol i leihau'r allyriadau carbon a gynhyrchir.

LLE RYDYN NI EISIAU BOD
▪ Rydym eisiau deall pa un o'n contractau sy'n cynhyrchu'r allyriadau carbon cwmpas 3 uchaf.
▪ Rydym am leihau'r allyriadau cwmpas 3 a gynhyrchir gan ein contractau.

SUT Y BYDDWN YN CYRRAEDD YNO
✓ Byddwn yn gweithio gyda'n cadwyni cyflenwi i gael ffigurau cywir ar gyfer allyriadau cwmpas 3 ar gyfer ein contractau sy'n cynhyrchu'r lefelau uchaf o garbon.
✓ Byddwn yn mesur ein hallyriadau cwmpas 3 gyda'r nod o'u lleihau cymaint â phosibl.
✓ Byddwn yn defnyddio data gwariant Atamis i fonitro cynnydd.
✓ Byddwn yn gweithio gyda Busnes Cymru i roi cymorth i'r cadwyni cyflenwi lleol o ran gallu mesur eu hôl troed carbon.

3. Gwerth Cymdeithasol

- Cynyddu'r gwerth economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n deillio o gontractau i gefnogi cymunedau lleol y Gwasanaeth.
- Gwella perthnasedd y Gwerth Cymdeithasol a gynigir gan y rhai sy'n cyflwyno bid i gyd-fynd â'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, ac anghenion y gymuned leol.
- Cyflwyno'r defnydd o'r System Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cymru i gynyddu cywirdeb gwerthuso gwerth cymdeithasol o fewn tendrau.

LLE RYDYN NI EISIAU BOD
▪ Rydym eisiau cynyddu'r defnydd o werth cymdeithasol o fewn contractau perthnasol.
▪ Rydym am wella perthnasedd a mesur gwerth cymdeithasol o fewn ein contractau.
▪ Rydym am fonitro sut y cyflawnir gwerth cymdeithasol o fewn contractau yn well.

SUT Y BYDDWN YN CYRRAEDD YNO
✓ Byddwn yn mabwysiadu offeryn Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Llywodraeth Cymru i fesur gwerth cymdeithasol o fewn ein gweithgareddau caffael.
✓ Byddwn yn dewis cwestiynau Themâu, Mesurau a Chanlyniadau Cymru yn ein prosesau caffael er mwyn sicrhau bod y gwerth cymdeithasol yn berthnasol i'r cymunedau rydym yn prynu ar eu cyfer.
✓ Byddwn yn sicrhau bod Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu gosod ar gyfer unrhyw ymrwymiadau gwerth cymdeithasol a wneir gan gyflenwyr, a byddwn yn gofyn i gyflenwyr ddarparu diweddariadau blynyddol ar Werth Cymdeithasol ym mis Mawrth bob blwyddyn, fel y gellir eu monitro fel rhan o'r broses rheoli contractau. Bydd y cynnydd wedyn yn cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Caffael Cymdeithasol Gyfrifol Blynyddol ym mis Ebrill bob blwyddyn.
✓ Byddwn yn hyrwyddo gwerth cymdeithasol ac yn addysgu rhanddeiliaid mewnol ac allanol i sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth lawn o ymrwymiadau gwerth cymdeithasol o fewn contractau.
✓ Byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth i adolygu a mesur ymrwymiadau gwerth cymdeithasol yn rheolaidd o fewn eu contractau.
✓ Byddwn yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddysgu a rhannu ein cynnydd o safbwynt gwerth cymdeithasol.

4. Rheoli Contractau

- Gwella rheoli contractau ar draws y Gwasanaeth i sicrhau bod amcanion contractau yn cael eu cyflawni.
- Cyflwyno sesiynau hyfforddi am reoli contractau i staff ar draws y Gwasanaeth sy'n gyfrifol am reoli contractau.
- Gwella'r Canllawiau Rheoli Contractau sydd eisoes ar gael i staff, gan sicrhau eu bod yn rhoi mwy o bwyslais ar reoli ymrwymiadau sy'n ymwneud â Gwerth Cymdeithasol a'r Amgylchedd.

LLE RYDYN NI EISIAU BOD
▪ Rydym am wella rheoli contractau ar draws y Gwasanaeth.
▪ Rydym am i'n rheolwyr contractau fod â'r sgiliau angenrheidiol i alluogi rheoli contractau yn gadarn.
▪ Rydym am wella ein canllaw rheoli contractau fel ei fod yn rhoi mwy o wybodaeth ac yn cyd-fynd â gofynion Deddf Caffael 2023.

SUT Y BYDDWN YN CYRRAEDD YNO
✓ Byddwn yn darparu hyfforddiant rheoli contractau i reolwyr contractau ar draws y Gwasanaeth.
✓ Byddwn yn adolygu'r canllaw rheoli contractau i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn llawn â gofynion Deddf Caffael 2023 a bod mwy o bwyslais ar reoli ymrwymiadau Gwerth Cymdeithasol ac Amgylcheddol.
✓ Byddwn yn darparu sesiynau "galw heibio" rheolaidd ar gyfer rheolwyr contractau sy'n dymuno trafod unrhyw broblemau y maent yn eu profi gyda'r contractau y maent yn eu rheoli.

5. Y Cyflog Byw Gwirioneddol

- Sicrhau achrediad y Cyflog Byw Gwirioneddol, mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr undebau llafur.
- Ymgorffori'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn contractau perthnasol. Mae hyn yn golygu unrhyw gontractau lle mae cyflenwyr yn treulio dwy awr neu fwy yr wythnos ar ein safle, am wyth neu fwy o wythnosau yn olynol mewn blwyddyn. Enghraifft o hyn fyddai ein contractwyr glanhau swyddfeydd a gorsafoedd, neu gontractwyr adeiladu sy'n gwneud gwaith yn unrhyw un o'n hadeiladau.
- Defnyddio'r Achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol i annog ei fabwysiadu'n ehangach ar draws ein cadwyni cyflenwi.

LLE RYDYN NI EISIAU BOD
▪ Sefydliad sy'n talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i bob gweithiwr.
▪ Sefydliad sy'n ymgysylltu ag undebau llafur i ddatblygu ei ddyheadau o ran Cyflog Byw Gwirioneddol wrth gryfhau partneriaethau cymdeithasol.
▪ Sefydliad sy'n ymgorffori'r Cyflog Byw Gwirioneddol mewn contractau perthnasol, lle mae contractwr yn gweithio ar ein safle am o leiaf 2 awr yr wythnos, am gyfnod o o leiaf 8 wythnos yn olynol.
▪ Sefydliad sy'n manteisio ar ei weithgareddau caffael i annog mabwysiadu ehangach ar draws ein cadwyni cyflenwi.
▪ Sefydliad sy'n annog safonau cyflog teg ar hyd ei gadwyni cyflenwi.

SUT Y BYDDWN YN CYRRAEDD YNO
✓ Byddwn yn bwrw ymlaen â'r cais am achrediad Cyflog Byw Gwirioneddol mewn ymgynghoriad ag undebau llafur.
✓ Byddwn yn diwygio ein dogfennau caffael i sicrhau eu bod yn ymgorffori gofynion y Cyflog Byw Gwirioneddol mewn contractau perthnasol.
✓ Byddwn yn annog mabwysiadu'r Cyflog Byw Gwirioneddol ar draws ein cadwyni cyflenwi, gan gynnwys is-gontractwyr.

✓ Byddwn yn cefnogi ein cyflenwyr llai yn benodol i symud tuag at achrediad y Cyflog Byw Gwirioneddol drwy gynnig arweiniad a chymorth perthnasol yn ôl yr angen.
✓ Byddwn yn gofyn i ymgeiswyr ddweud beth yw eu statws o ran y Cyflog Byw Gwirioneddol, eu strwythurau cyflog a'u cynlluniau gweithredu fel rhan o'u cyflwyniadau tendro ar gyfer contractau perthnasol.

GWEITHREDU

Bydd gweithredu'r strategaeth hon yn dibynnu ar nifer o elfennau i'n galluogi i wireddu ei gweledigaeth a'i hamcanion. Mae hyn yn cynnwys:

- Ymrwymiad a chefnogaeth gan yr Awdurdod Tân.
- Ymrwymiad a chefnogaeth gan Fwrdd Arweinyddiaeth Weithredol y Gwasanaeth.
- Ymrwymiad a chefnogaeth gan yr holl Ddeiliaid Cyllideb, Adrannau Gwasanaeth a Rhanbarthau.
- Sgiliau a gwybodaeth y tîm caffael, gyda gwybodaeth gyfredol am ddeddfwriaeth ac arfer gorau.
- Ymgysylltu llwyddiannus â rhanddeiliaid i annog cydweithio a thryloywder.
- Prosesau caffael cadarn ac effeithlon sy'n cefnogi cysondeb, cydymffurfiaeth, tryloywder a chanlyniadau caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.
- Yr angen i fod yn realistig ac yn gymesur ynghylch yr hyn y gellir ei gyflawni o fewn cyfyngiadau adnoddau presennol.

Byddwn yn ymrwymo i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, gan sicrhau ein bod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol. Byddwn hefyd yn ceisio nodi a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio â sefydliadau eraill lle bo hynny'n briodol, er mwyn cryfhau'r effaith a'r gwerth ychwanegol a grëir.

Caiff y Strategaeth ei hadolygu'n flynyddol, a gwneir unrhyw ddiwygiadau yn ôl yr angen.


CYNLLUN CYFLWYNO

Mae Cynllun Cyflwyno wedi'i ddatblygu i gyd-fynd â'r Strategaeth hon, sy'n amlinellu'r camau i'w cymryd wrth weithredu'r Strategaeth. Bydd y Cynllun Cyflwyno yn cael ei ddefnyddio i reoli a monitro cynnydd. Bydd y Cynllun Cyflwyno yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol ym mis Ebrill i gyd-fynd â gofynion adrodd Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Ym mis Ebrill 2027, bydd yn ofynnol i'r Gwasanaeth gyflwyno ei Adroddiad Caffael blynyddol cyntaf i Lywodraeth Cymru, a fydd yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn y flwyddyn ariannol 2026/2027, ac yn flynyddol wedi hynny.

Bydd y Strategaeth a'r Cynllun Cyflwyno cysylltiedig yn cael eu hadolygu'n flynyddol, a gwneir unrhyw ddiwygiadau yn ôl yr angen.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



JR2224